Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 18 Rhagfyr 2019 |
| **Pwnc / Subject:** | Pecyn cymorth drafft ar weithredu cwnsela yn yr ysgol a'r gymuned |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Cyflwyniad**

Rydym yn croesawu'r pecyn cymorth newydd, sy'n darparu arweiniad buddiol wedi'i ddiweddaru ar gyfer yr holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cwnsela. Rydym wedi nodi tri maes lle gellid gwella'r pecyn cymorth ymhellach, sef:

- Er bod y pecyn cymorth yn darparu arweiniad buddiol ar weithio gyda rhai grwpiau sy'n agored i niwed, gellid ymestyn yr adran hon i gwmpasu pob grŵp sy'n agored i niwed.
- Mae'r pecyn cymorth yn glir y dylai gwasanaethau cwnsela fod ar gael yn gyffredinol i ddisgyblion Blwyddyn 6, ond nid yw'n cynnig arweiniad penodol ar ddarparu gwasanaethau mewn ysgolion cynradd.
- Byddai'r pecyn cymorth yn elwa ar arweiniad ar werthuso gwasanaethau, gan fod angen i awdurdodau lleol a'u gwasanaethau (p'un a ydynt yn cael eu darparu'n uniongyrchol neu wedi eu comisiynu) wella ansawdd eu ffordd o werthuso gwasanaethau.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – Esboniwch sut rydych chi'n credu y gellid newid y pecyn cymorth cwnsela diwygiedig er mwyn cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo cysondeb darparu'r gwasanaeth cwnsela ledled Cymru, a chyfle teg i bobl ifanc allu ei ddefnyddio.

## Sylwadau ategol

Mae tri maes lle gellid gwella'r pecyn cymorth.

**I hyrwyddo cysondeb y ddarpariaeth**

1. Mae'r adran sy'n dwyn y pennawd 'Monitro deilliannau / gwerthuso gwasanaethau' (tudalennau 70-71) yn canolbwyntio ar fonitro deilliannau ac nid yw'n darparu arweiniad ar werthuso gwasanaethau. Mae angen gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu gwerthuso. Mewn trafodaethau gydag awdurdodau lleol, rydym yn aml yn gweld nad ydynt yn gwerthuso eu gwasanaeth yn ddigon da. Nid ydynt yn gofyn cwestiynau am y data sydd ar gael. Er enghraifft, mae gwahaniaethau sylweddol ledled Cymru yng nghyfran y disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, nifer gyfartalog y sesiynau cwnsela, nifer gyfartalog y sesiynau a gollir a'r newid cyfartalog mewn sgorau cyn ac ar ôl cwnsela. Mae angen gwerthuso defnydd o'r gwasanaeth gan grwpiau penodol, gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed, yn enwedig lle mae dyletswyddau statudol yn ymwneud â grwpiau penodol (e.e. yr iaith Gymraeg, nodweddion gwarchodedig). Dylai gwasanaethau ystyried gwahaniaethau yn y defnydd a wneir o wasanaeth, ac effaith yn ôl ysgol unigol er mwyn nodi problemau posibl. Anaml y gwelwn awdurdodau lleol yn defnyddio gwybodaeth o'r fath i herio ansawdd ac effaith y gwasanaeth a ddarperir neu i lywio cynllunio neu gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol.

| **Hyrwyddo mynediad teg** |
|---|
| 2. Gellid ymestyn yr adran sy'n dwyn y pennawd 'Grwpiau eraill o blant a phobl ifanc ag anghenion penodol' (tudalennau 20-22) ymhellach â chyngor ac arweiniad penodol mewn perthynas â hyrwyddo a darparu cwnsela i grwpiau sy'n agored i niwed nad ydynt yn cael eu cwmpasu yn yr adran hon ar hyn o bryd – er enghraifft, plant sy'n cael eu haddysgu gartref a disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt.<br><br>3. Mae'r pecyn cymorth yn glir y dylai gwasanaethau fod ar gael yn gyffredinol i ddisgyblion Blwyddyn 6. Fodd bynnag, nid yw'r pecyn cymorth yn darparu arweiniad penodol ar ddarparu gwasanaethau mewn ysgolion cynradd. Canfu ein hadroddiad 'Iach a hapus' fod y cyfleoedd a gaiff ysgolion cynradd i elwa ar wasanaeth cwnsela yn amrywio ledled Cymru. Gallai fod yn ddefnyddiol cryfhau'r pecyn cymorth i sicrhau tegwch ledled Cymru ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6. |

**Cwestiwn 2** – A ydych chi'n cytuno bod cynnwys y pecyn cymorth cwnsela diwygiedig yn briodol ac yn effeithiol? Os na, pa ddiwygiadau pellach sy'n angenrheidiol, yn eich barn chi?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| Cytuno, ond byddem yn argymell ychwanegu at y pecyn cymorth, yn unol â'r manylion yn ein hateb i gwestiwn 1. |
|---|

**Cwestiwn 3** – A ydych chi o'r farn fod y pecyn cymorth cwnsela diwygiedig yn darparu'r lefel gywir o gymorth ar gyfer darparwyr cwnsela a rheolwyr gwasanaethau cwnsela ar yr arfer orau ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth mewn ysgol a lleoliad cymunedol?

**Sylwadau ategol**

| Cytuno, ond byddem yn argymell ychwanegu at y pecyn cymorth, yn unol â'r manylion yn ein hateb i gwestiwn 1. |
|---|

**Cwestiwn 4** – Yn dilyn cyhoeddi'r pecyn cymorth cwnsela diwygiedig, pa weithgarwch gweithredu (hyfforddiant a / neu godi ymwybyddiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, er enghraifft) (os o gwbl), fydd yn angenrheidiol, yn eich barn chi?

**Sylwadau ategol**

Gallai fod yn ddefnyddiol darparu cymorth ar werthuso gwasanaethau ar gyfer darparwyr a chomisiynwyr, ac annog rhannu arfer bresennol yn hyn o beth.

Mae angen mwy o waith i hyrwyddo gwasanaethau ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed, ac ymhlith disgyblion Blwyddyn 6, gan weithio gyda phartneriaid perthnasol i gyflawni hyn.

**Cwestiwn 5** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau a gaiff y *Pecyn cymorth drafft ar weithredu cwnsela yn yr ysgol a'r gymuned* ar y Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Bydd effaith niweidiol os na all gwasanaethau cwnsela gynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod pobl ifanc sy'n ffafrio cael cwnsela yn Gymraeg yn gallu derbyn gwasanaeth cystal â phobl ifanc sy'n ffafrio cael cwnsela yn Saesneg.

Dylai gwerthuso gwasanaethau fyfyrio ar ddarpariaeth Gymraeg, ac ystyried p'un a yw gwasanaeth o'r fath yn wahanol i'r gwasanaeth Saesneg o ran agweddau fel argaeledd, amseroedd aros a deilliannau.

**Cwestiwn 6** – Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y pecyn cymorth arfaethedig er mwyn cael:

i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Mae'r pecyn cymorth yn glir iawn ynghylch disgwyliadau mewn perthynas â gofynion o ran y Gymraeg.

Gallai'r adran ar werthuso gwasanaethau argymell y dylai darparwyr a chomisiynwyr fonitro a gwerthuso gwasanaethau yn unol â'r gofynion hyn.

**Cwestiwn 7** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt.

Yn ein hadroddiad 'Iach a hapus' (Mehefin 2019), fe wnaethom gynnwys cyfeiriadau at wasanaethau cwnsela. Rydym yn dyfynnu'r rhain isod ac yn cynnig sylwadau ynglŷn â pha mor dda yr eir i'r afael â'r rhain yn y pecyn cymorth diwygiedig.

*"Ni adeiladwyd pob ysgol i gynnwys gwasanaethau cymorth allanol, fel gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol, gwasanaethau nyrs ysgol a gwasanaethau therapiwtig eraill. Er bod pob ysgol yn defnyddio gwasanaethau allanol o'r fath, mae hygyrchedd a chyfrinachedd gwasanaethau'n cael eu peryglu mewn rhai ysgolion oherwydd cyfyngiadau'r adeilad. Lle y mae ysgolion yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r gwasanaethau hyn, maent yn addasu lleoedd yn llwyddiannus i gynnig preifatrwydd addas mewn amgylchedd deniadol a digyffro." (paragraff 69)*

Rydym yn nodi bod y pecyn cymorth diwygiedig yn cynnwys arweiniad clir i hyrwyddo amgylchedd cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cwnsela a ddarperir mewn ysgolion.

*"Mae pob ysgol uwchradd yn cynnal gwasanaeth cwnsela annibynnol sy'n cael ei ddarparu neu ei gomisiynu gan eu hawdurdod lleol. Mewn ychydig achosion, mae staff yr ysgol yn rheoli pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth, er bod y gallu i ddefnyddio'r gwasanaeth yn hawl gyfartal i bob disgybl yng Nghymru." (paragraff 86)*

Rydym yn nodi bod y pecyn cymorth diwygiedig yn glir ynglŷn â'r aelod staff sydd â'r cyfrifoldeb am gysylltu â'r gwasanaeth cwnsela, sef "nid oes gan yr aelod staff rôl gwarchodwr am atgyfeiriadau, gan mai cyfrifoldeb y gwasanaeth yn gyfan gwbl yw hyn."

*"Yn dibynnu ar yr awdurdod lleol, mae ysgolion cynradd weithiau'n gallu manteisio ar wasanaethau cwnsela ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ac, weithiau, disgyblion iau. Hefyd, mae ysgolion cynradd weithiau'n gallu manteisio ar wasanaethau therapiwtig eraill, eto'n dibynnu ar yr hyn sydd ar gael yn lleol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae ysgolion cynradd yn cael trafferth yn gyffredinol manteisio ar wasanaethau cwnsela neu wasanaethau therapiwtig eraill pan fydd arnynt eu hangen i ddisgyblion yn dilyn profedigaeth neu amgylchiadau trawmatig eraill." (paragraff 86)*

Mae'r pecyn cymorth yn glir y dylai gwasanaethau fod ar gael yn gyffredinol i ddisgyblion Blwyddyn 6. Fodd bynnag, nid yw'r pecyn cymorth yn darparu arweiniad penodol ar ddarparu gwasanaethau mewn ysgolion cynradd. O ystyried y sefyllfa bresennol, gallai fod yn ddefnyddiol cryfhau'r pecyn cymorth i sicrhau tegwch ledled Cymru ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6.

Mae atebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.  Os byddai'n well gennych aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐